At: Fudiadau a Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol Unigolion yn Gweithio gyda Phlant Dan 11

Gorffennaf 5ed, 2010

DARLLENWCH Y LLYTHYR YMA YN LLAWN CYN CWBLHAU EICH CAIS

Annwyl Gydweithiwr

GRANT CYNALADWYEDD DAN 11 2010/2011

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych [CGGSDd] yn gweinyddu'r Cynllun Grantiau Bach Dan 11, unwaith eto eleni, ar ran Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych.

Rwy'n amgáu ffurflen gais. Eleni fe hoffem i ymgeiswyr sydd â mynediad i DG gwblhau copi electronig o'r ffurflen gais. Gallwch sicrhau ffurflenni yn www.dvsc.co.uk neu www.denbighshire.gov.uk/fis. Mae'r matrics sgorio a fydd yn cael ei ddefnyddio gan y panel dyrannu hefyd ar gael ar y gwefannau yma. Dylech e-bostio y ffurflen yn ôl i mi - emyr@dvsc.co.uk cyn y dyddiad cau. Fe fydd yn rhaid i chwi anfon copi wedi ei arwyddo trwy'r post yn ogystal.

Yr uchafswm grant sydd ar gael yw £600. Mae'r cynllun grant yma fel arfer yn ordanysgrifiedig ac o ganlyniad nid oes yna unrhyw sicrwydd y byddwch yn derbyn grant. Noder os gwelwch yn dda nad yw ad-daliadau benthyciadau yn gymwys am grant. **Dylech nodi yn ogystal fod dyfodol y cynllun grant yma yn ansicr.**

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau **Dydd Gwener, Medi 17eg, 2010**

Dylech sicrhau fod yr holl wybodaeth/dystiolaeth angenrheidiol yn cael ei gynnwys gyda'ch ffurflen gais hy cyfansoddiad neu reolau ar gyfer y Grwp/Mudiad sydd yn cyflwyno'r cais (rhaid i'r cyfansoddiad fod yn ddyddiedig ac wedi cael ei arwyddo) ynghyd a chopi o'ch Mantolen Ariannol Blynyddol mwyaf diweddar. Fe fydd methu a chynnwys y wybodaeth yma yn peryglu eich siawns o gael grant. Os hoffech gynnwys gwybodaeth ychwanegol gyda'ch cais mae croeso i chwi gynnwys llythyr eglurhaol.

Os dyfarnwyd grant i chwi yn 2009, ac nid ydych wedi anfon derbynebau gwariant i ni, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer grant yn 2010.

Os hoffech gymorth i gwblhau eich ffurflen gais peidiwch ag oedi rhag cysylltu â mi.

Os hoffech wybodaeth ar unrhyw faterion cyffredinol gallwch gysylltu â Catrin Tomos a fydd yn fwy na pharod i gynnig cymorth:

Catrin Tomos
Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu
Rhif ffôn – 01824 708213

Neu, os ydych yn aelod o fudiad ambarél gallwch gysylltu â'ch cynrychiolydd lleol:

Catherine Richards
Mudiad Ysgolion Meithrin
Rhif ffôn – 07792947004

Sue Jones
Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn Ysgol Cymru
Rhif ffôn – 07910097534

Nicole Lovatt
Clybiau Plant Cymru
Rhif ffôn – 01492536318 neu 07818407514

Debbie Williams
Cymdeithas Gwarchod Plant Cenedlaethol
Rhif ffôn – 08458801317

Rhian Oldroyd
Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol
Rhif ffôn – 01824 707823

Yn gywir

Emyr B Williams
Uwch Swyddog Datblygu